Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol Tai
12.30-1.30pm, 17 Hydref 2017

Oriel y Dyfodol, Adeilad y Pierhead, Bae Caerdydd

Yn bresennol

Mike Hedges AM (Cadeirydd)
David Melding AC
Bethan Jenkins AC
Ryland Doyle (Swyddfa Mike Hedges AC)
John Puzey, Shelter Cymru
Matthew Kennedy (CIH Cymru)
Aaron Hill (Cartrefi Cymunedol Cymru)
Geraldine Nicholas (Cartrefi Cymunedol Cymru)
Nick Morris (Crisis)
Daniel Bellis (RLA Cymru)
Martin Asquith (Housemark)
Jack Stacey (Swyddfa Huw Irranca-Davies)
David Palmer, (Canolfan Cydweithredol Cymru)
Casey Edwards (Canolfan Cydweithredol Cymru)
Katie Dalton (Cymorth Cymru)
Alicja Zalesinska (Tai Pawb)
David Lloyd (TPAS Cymru)
Juliet Morris (Gofal a Thrwsio Cymru)
Hilary Watson (Cymorth i Fenywod Cymru)

Cofnodion

1. Adolygiad o ffigyrau digartrefedd a chanfyddiadau adroddiad gwerthuso interim Llywodraeth Cymru.

Rhoddodd JP gyflwyniad i'r grŵp ar yr ystadegau digartrefedd diweddaraf a dadansoddiad Llywodraeth Cymru. Tynnodd JP sylw at y ffaith fod yna dystiolaeth o alw cynyddol, cysgu ar y stryd a bod llety dros dro yn dal i gael ei ddefnyddio.

Roedd y rhai sydd dan fygythiad o ddigartrefedd wedi cynyddu 29% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol a gwelwyd 58% o gynnydd yn y rheiny sy'n ddigartref. Eglurodd JP fod hyn yn cynrychioli patrwm cwbl groes i'w hyn a welwyd yn ffigurau'r flwyddyn flaenorol. Awgrymodd JP fod hyn oherwydd cynnydd yn y bobl sy'n chwilio am gymorth brys.

Hefyd, awgrymodd JP y gallai fod elfen o reoli yn hyn gan fod rhai pobl efallai yn cael eu cynghori i fynd yn ôl at eu Hawdurdod Lleol unwaith y bydd eu sefyllfa'n newid.

Wrth bwyso a mesur adroddiad gwerthuso interim Llywodraeth Cymru, tynnodd JP sylw at y ffaith fod yr adroddiad yn gweld heriau clir o ran cael y capasiti i ddiwallu'r angen. Mae problemau hefyd o ran darparu cymorth i bobl â nodweddion gwarchodedig a grwpiau eraill sy'n agored i niwed.

Nododd JP hefyd fod cynnydd mewn cysgu ar y stryd a'r defnydd o lety dros dro, a thynnodd sylw at y ffaith nad oedd ateb tai wedi'i ganfod i draean yr holl aelwydydd a oedd yn cael eu bygwth â digartrefedd. Esboniodd JP fod 19% o'r rheiny sy'n gadael y system yn gwneud hynny am nad ydynt yn cydweithredu. Mynegodd JP bryder am hyn gan annog gwell dealltwriaeth o'r achosion sylfaenol.

Eglurodd JP fod y mesur camau rhesymol weithiau'n gweithredu fel rhwystr ac yn arwain at benderfyniad diffyg cydymffurfio. Esboniodd JP fod gan y Ddeddf Lleihau Digartrefedd yn Lloegr ddiffiniad llawer tynnach o ddiffyg cydweithredu.

Dywedodd MH fod y broblem hon yn gallu dwysáu lle nad oes gan bobl gyfeiriad sefydlog na mynediad at ffôn – sy'n cyfyngu ar y dulliau posibl o gysylltu â nhw.

Pwysleisiodd JP hefyd yr oedi a achoswyd drwy gyflwyno Credyd Cynhwysol, sy'n creu lefelau uwch o ôl-ddyledion i bobl. Cytunai KD fod hyn hefyd yn adlewyrchu profiad y gwasanaethau cymorth a bod yr heriau sydd ar fin ymddangos yn ymwneud â'r Gyfradd Llety a Rennir hefyd yn debygol o gynyddu caledi.

Cwestiynodd BJ y sefyllfa lle mae pobl sydd ag angen blaenoriaethol yn llithro drwy'r rhwyd. Esboniodd JP y dylai'r sefyllfa wella o dan y ddeddfwriaeth, gyda phawb yn cael rhyw fath o gymorth. Fodd bynnag, gyda mwy o alw a llai o opsiynau, mae pobl yn gynyddol yn cyrraedd cam olaf y broses.

Awgrymodd JP ei bod efallai'n bryd newid y diffiniad o angen blaenoriaethol ond roedd yn cydnabod yr heriau o ran yr effaith ar y cyflenwad tai.

Awgrymodd DP hyfforddiant i Awdurdodau Lleol yn ymwneud â chydweithredu a manteision cydweithredu, i hybu mwy o ymgysylltu.

Tynnodd AZ sylw at yr angen i gael gwell dealltwriaeth o bwy yn union sy'n mynd drwy'r broses. Ychwanegodd AH mai dynion sengl ifanc fyddai'n cael eu taro waethaf gan y cap LHA ac y cyfyngir ar yr opsiynau tai a fydd ar gael iddynt.

Tynnodd DM sylw at yr angen am fwy o uchelgais o ran y cyflenwad tai gan nodi bod tai'n cael eu codi yn y 1950au ar ddwywaith y gyfradd bresennol.

Ychwanegodd MH y dylid adeiladu tai cyngor yn gyflymach i hybu'r cyflenwad. Croesawai AH hyn ac awgrymodd fod angen dull marchnad gyfan. Ychwanegodd KD y byddai arallgyfeirio yn parhau i fod yn bwysig i gymdeithasau tai wrth iddynt geisio noddi'u rhaglenni adeiladu tai.

Amlygodd DM yr angen i wneud mwy â thir llygredig lle gallai fod cyfle i adeiladu tai fforddiadwy.

2. Cefnogi Pobl a'r Gyllideb Atal Digartrefedd

Croesawai KD y cyhoeddiad ar y gyllideb Cefnogi Pobl a'r £10m ychwanegol. Tynnodd KD sylw at y ffaith y byddai unrhyw doriad wedi bod yn niweidiol iawn i ddarparwyr gwasanaethau a chroesawodd y gefnogaeth drawsbleidiol i Cefnogi Pobl. Ategodd AH hyn ac ychwanegodd fod angen bod yn ymwybodol o effaith bosibl diwygiadau lles ar lety â chymorth.

Tynnodd KD sylw at effaith gwasanaethau Cefnogi Pobl ar y gwasanaethau iechyd a phwysleisiodd ymhellach yr angen i barhau i glustnodi'r gyllideb. Cododd bryderon y gallai uno cyllidebau leihau atebolrwydd am y llinell wariant.

O ran yr adolygiad llety â chymorth eglurodd KD fod yna bryderon gwirioneddol ynghylch hosteli a llety i bobl hŷn.

Wrth sôn am y gyllideb atal digartrefedd, croesawai JP yr arian yn erbyn cefndir o alw cynyddol a thynnodd sylw at yr angen i sicrhau bod yna ffordd glir o fonitro sut mae'r arian yn cael ei ddefnyddio.

Pwysleisiodd MH y byddai'n bwysig bod yr arian yn cael ei ddefnyddio "yn ychwanegol" at yr hyn sydd eisoes wedi'i wario yn hytrach nag i lenwi bylchau o ran capasiti.

3. Diweddariad ar y Prosiect Drysau Agored

Eglurodd AZ fod y prosiect Drysau Agored yn cael ei roi ar waith mewn partneriaeth â'r RLA (Cymdeithas Landlordiaid Preswyl) yng Nghymru yn erbyn cefndir o bwysau cynyddol ar wasanaethau digartrefedd a thai cymdeithasol, gyda llawer mwy o bobl yn mynd i'r sector rhentu preifat. Dywedodd AZ fod 40% o bobl BME yn byw yn y sector rhentu preifat.

Dangosai canlyniadau arolwg Tai Pawb fod hanner yr ymatebwyr wedi cael problemau'n ymwneud â nodweddion gwarchodedig wrth fyw yn y sector rhentu preifat. Ymatebodd llawer o landlordiaid yn gadarnhaol gan awgrymu bod angen cefnogaeth ychwanegol yn y maes hwn.

Ychwanegodd AZ y bydd y prosiect yn cynnwys canolfan gynghori, llinell gymorth, canllawiau ar-lein, sesiynau hyfforddi, canllawiau ymgysylltu ar gyfer Awdurdodau Lleol a bydd hefyd yn treialu gwasanaethau cyfryngu rhwng landlordiaid a thenantiaid gan ddefnyddio a recriwtio hyrwyddwyr o fewn y grwpiau hyn.

Dywedodd MH fod potensial y gwelir gwahaniaethau yn y gwasanaethau a dderbynnir yn dibynnu ar lefel y rhent a geir am eiddo. Ychwanegodd DB fod adnoddau ar ben isaf y farchnad yn dynnach ond mae hyn yn aml yn golygu bod landlordiaid yn ymwneud mwy â rheoli eu heiddo.

4. Unrhyw fater arall

Tynnodd AH sylw at Fil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru), gan ei groesawu. Tynnodd AH sylw at y ffaith fod y Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi nodi, os bydd y Bil yn parhau fel y'i cyflwynwyd, y bydd yn arwain at adolygiad o benderfyniad ail-ddosbarthu'r Swyddfa Ystadegau Gwladol.